# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod yn Canolfan Rhosybol
## Nos Lun 26 Mehefin 2022 am 7yh.

1. Cyfarfod yn canolfan Rhosybol.

2. Presennol
   Wendy Morris Griffiths, Debra Griffiths, Aled Morris Jones a Gwilym Morris

3. Ymddiheuriadau

4. Datgan Diddordeb
   Dim

5. **Dewis Swyddogion / Rheolau Sefydlog / Rheolau Cyllidol 2022/23**

   i) Cadeirydd
   (Hefyd yn sefyll am Cadeirydd Trysglwyn)
   GM (dros dro)

   ii) Is Gadeirydd
   (Hefyd yn sefyll am Trysglwyn)
   AMJ yn cynnig gohirio nes cael cyngor llawn

   iii) Swyddogion ar bwyllgorau allanol

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyllid Cyfrifol | Gohirio nes cael cyngor llawn |
| Adrodd i'r wasg / Gwefan | Gohirio nes cael cyngor llawn |
| Pwyllgor Neuadd Rhosybol | WMG |
| Llywodraethwyr yr Ysgol | WMG |
| Ceisiadau Cynllunio | Gohirio nes cael cyngor llawn |
| Fforwm Cynllunio ynys Môn | Gohirio nes cael cyngor llawn |
| Un Llais Cymru | Gohirio nes cael cyngor llawn |
| Cynllun Datblygu Lleol | Gohirio nes cael cyngor llawn |
| Gogledd Môn | AMJ a GM |
| Pwyllgor Wylfa / Magnox / SSG | Gohirio nes cael cyngor llawn |

   iv) Arwyddo sieciau
   Ar hyn o bryd GM / AMJ / DG

v) Hawl i’r clerc a’r cadeirydd ddelio a biliau sefydlog rhwng cyfarfodydd, os bo angen.
AMJ + WMG yn cymeradwyo

vi) Cytuno i ohirio cyfarfod os oes ddim ‘quorum’
AMJ + WMG yn cymeradwyo

vii) Iaith swyddogol y Cyngor Cymuned fydd y Gymraeg.
AMJ + WMG yn cymeradwyo

6. Darllen a cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod 2il Mai 2022
WMG a GM yn cymeradwyo

7. **Materion yn codi**

i) Hysbysiad o gyfethol – dyddiad cau am geisiadau 18/07/2022
3 Sedd yn Llandyfrydog
3 Sedd yn Rhosybol

ii) Cae Chwarae Rhosybol
Contractwr torri gwair am fynd yna cyn gynted a phosib i dorri’r gwair

iii) Ymholiad defnydd cae ger Cae Cwta, Rhosybol – Cais ENF/2022/74
CSYM yn gwneud ymchwiliad i’r safle
Pryder ynghlyn a’r safle gyda aerial ar y garavan

iv) Gwyriad Llwybr Cyhoeddus rhifau 9 Rhosybol & 76 Amlwch – gweler map

Nid yw mynediad wedi bod yn bosib ar hyd Llwybr 9 Rhosybol rhwng pwyntiau E a D ers amser maith. Roedd gwyriad answyddogol yn bodoli ar y ddaear rhwng pwyntiau A - B - C-D am nifer o flynyddoedd; ymddengys fod hyn wedi ei gytuno rhwng y Cyngor Sir a chyn berchennog y caeau er mwyn osgoi tir gwlyb iawn a groesir gan Lwybr rhif 9. Mae'r camfeydd ym mhwyntiau A a B bellach mewn cyflwr perygl ac, hefyd, ni ellir defnyddio rhan D i G yn Glan Gors Fawr oherwydd rhwystrau arno.
Yn dilyn trafodaethau diweddar efo'r tirfeddianwyr cynigir gwyro'r llwybr i ddilyn y trywydd F-B-C-D. Bydd angen gosod giatiau ym mhwyntiau E a B ac ym mhwynt F bydd yn gwyriadyn gwneud defnydd o fwlch presennol rhwng 2 gae. Bydd angen hefyd clirio tyfiant a rhwystrau amrywiol o D i G. Mae Llwybr rhif 76 Amlwch yn gwneud cwrs anuniongyrchol iawn i gysylltu efo Trysglwyn Isaf. Yn dilyn trafodaeth efo'r tirfeddiannwr cytunwyd bydd yn fanteisiol i'r perchennog a'r cyhoedd os sythir y llwybr i ddilyn y trywydd H I J.

v) Trysglwyn
Capel Mwd
Capel y Bedyddwyr yn cytuno i pwyllgor Trysglwyn drefnu rhywuniI glirio’r safle ar yr amod fod yswiriant priodol gan y contractwr.
Sion Williams am fynd i weld y safle.

**8. Gwybodaeth**

a) Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC)
Y Menopos: Corff Gwarchod Iechyd I geisio barn
Nifer o sessiynau ar gael I mynegi barn drwy defnyddio:
https://forms.office.com/r/6TKDWDiY6s

b) Cyngor Sir Ynys Mon
Datganiad: Taith Baton y Frenhines Birmingham 2022 yn dod i Gaergybi ar 29 Mehefin
Cychwyn 8.45yb o orsaf RNLI

c) Môr Mona – Fferm Wynt
ENBW bp yn lansio ymgynghoriad cyntaf ar gyfer fferm wynt
Ymgynhoriad hyd at 3ydd Awst 2022
https://comms.morganandmona.com/7F1O-C2O-A56JQ-4677-1/c.aspx
Digwyddiadau Ymgynghori, achlysurol ac ar-lein, manylion yn:
https://www.morganandmona.com/cym/dweud-eich-dweud/?dm_i=7F1O,C2O,A56JQ,X5S,1

Er gwybodaeth gwybodaeth yn Co-op Amlwch Dydd mercher 29 Mehefin 2022 rhwng 10yb – 2yp

d) Un Llais Cymru
Sesiynau hyfforddiant o bell
Os oes gennych diddordeb gall ME rhoi rhestr

**9. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

-FPL/2022/157
Capel Bach, Rhosybol
Cais llawn a'r gyfer codi sied amaethyddol i storio peiriannau
Cefnogi

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

VAR/2022/27
Innisfree, Pencraigwen
Cais i bennu os oes angen caniatad ar gyfer sied amaethyddol
Caniatad gyda amodau

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

i) Cyngor Sir Ynys Mon anfoneb 2466872
£270.00
Costau Ethoiad Diwrthwynebiad 5 Mai 2022

ii) Anglesey Computer Solutions anfoneb 22023
£342.00
Costau rheoli gwefan hyd at 01/06/2024

iii) Sion Williams 21/47
£540.00
Torri gwair a llwybr yn ystod 2021

AMJ a WMG yn cymeradwyo I dalu

10. **Unrhyw Fater Arall**

Pryder ynghlyn a gwasanaeth bwsys sydd yn mmynd trwy Rhosybol, gan mai dim ond 3 gwaith y dydd mae bws cyhoeddus yn mynd trwy’ pentref.